# Effaith Cymorth Menter ym Mhrifysgol Aberystwyth

## Mis Medi 2023 – Mis Awst 2024


| | | |
|---|---|---|
| Tony Orme | Hyrwyddwr Menter | enterprise@aber.ac.uk |
| Louise Somerfield | Swyddog Menter | enterprise@aber.ac.uk |


==========================================================================================

**Ym Mhrifysgol Aberystwyth rydym yn ymrwymo i:**

- Annog arloesedd o syniadau a chamau newydd, o fewn cyd-destun entrepreneuraidd, gan ymdrechu i ddatgloi potensial unigol
- Grymuso ein holl fyfyrwyr, waeth beth fo'u maes pwnc neu lefel eu hastudiaethau, i feithrin sgiliau perthnasol (gan gynnwys sgiliau a chymwyseddau entrepreneuraidd) drwy sicrhau bod y rhain yn bresennol yn y cwricwlwm
- Ymgorffori sgiliau cyflogadwyedd (menter yn benodol) ar draws ein hamrywiaeth o raglenni, gan gynnwys cyfleoedd pellach ar gyfer profiad gwaith, gwirfoddoli, profiad rhyngwladol a sgiliau trosglwyddadwy eraill
- Buddsoddi yn natblygiad effaith ein hymchwil yn ogystal â sgiliau entrepreneuraidd ein hymchwilwyr
- Meithrin meddylfryd amrywiol ar draws y cwricwlwm academaidd a thrwy weithgareddau allgyrsiol, o ran menter, entrepreneuriaeth ac intrapreneuriaeth yn benodol, gan ddefnyddio'r model sgiliau EntreComp (Cymwyseddau entrepreneuraidd) newydd

==========================================================================================

**Mae'r priodoleddau rydym ni'n eu hyrwyddo trwy ein dull a'n gweledigaeth yn anelu i sicrhau bod ein myfyrwyr a'n graddedigion yn:**

Gynhwysol: ym mhopeth y maent yn ei wneud a chyda phawb sy'n croesi eu llwybrau

Dyfeisgar: yn meithrin eu sgiliau i feddwl yn wreiddiol a datrys problemau byd-eang (a lleol)

Ysbrydoli: yn manteisio ar yr holl gyfleoedd sy'n agored iddynt, er mwyn datgloi eu potensial yn y dyfodol

Annibynnol: yn datblygu i fod yn ddinasyddion gwybodus a hyderus

Unigolyddol: yn eu llwybrau gyrfa a'u cyfraniadau unigryw eu hunain i'r byd

Mae'r priodoleddau hyn yn arbennig o berthnasol i'n graddedigion sy'n mynd ymlaen i sefydlu a rhedeg busnesau a mentrau cymdeithasol newydd.

Ein Cenhadaeth, o ran Entrepreneuriaeth, yw trefnu ein hymgyrch i ymgysylltu, grymuso ac arfogi ein myfyrwyr mewn ffordd sy'n ategu'r blaenoriaethau economaidd rhanbarthol a amlygwyd yng Nghynllun Gweithredu Economaidd Cymru.

==========================================================================================

**Rhoddodd 'Siwrnai Myfyrwyr' yn Aberystwyth yn 2023 -24 y cyfle i'n myfyrwyr:**

- Ymgysylltu â syniadau entrepreneuriaeth, intrapreneuriaeth a busnesau newydd a mentrau cymdeithasol trwy "ddigwyddiadau mewnwelediad entrepreneuraidd"; sgyrsiau adrannol; Ffeiriau'r Glas a'r Ffair Yrfaoedd.

- Profi straeon modelau rôl lleol, Cymraeg, Syniadau Mawr Cymru a chyn-fyfyrwyr mewn cyflwyniadau oed yn ysbrydoli entrepreneuriaeth.

- Mynychu cyfres barhaus o weithdai 'arfogi' yn sôn am Ymchwil y Farchnad, Marchnata, Eiddo Deallusol, Cyllid a chadw cyfrifon, Treth, Rhwydweithio, Marchnata digidol, Cyllid torfol ac ati – ac yn ymgorffori Wythnos Fenter Fyd-eang.

- Cymryd rhan yn ein Cystadleuaeth Syniadau Myfyrwyr flynyddol - *InvEnterPrize*

- Cael sesiynau mentora unigol gyda mentoriaid busnes Syniadau Mawr Cymru, a gynhaliwyd ar-lein ac wyneb yn wyneb.

- Cymryd rhan yn Wythnos Cychwyn Busnes yr Haf – Fe'i cynhaliwyd ym mis Mehefin ac roedd yn wythnos lawn o weithdai wedi eu cynllunio i roi'r wybodaeth, y sgiliau a'r cysylltiadau y bydd eu hangen ar gyfranogwyr i ddechrau eu busnesau/mentrau cymdeithasol eu hunain, neu ddatblygu a thyfu eu menter bresennol.

**EFFAITH Creu Eco-system Entrepreneuraidd:**

- Mae Prifysgol Aberystwyth yn ganolog i'r eco-strwythur entrepreneuraidd yng Nghanolbarth Cymru ac rydym yn ymrwymo i aros yno.

- Rydym yn trefnu ac yn cynnal sesiynau rhannu gwybodaeth chwarterol gyda Syniadau Mawr Cymru; y rhwydwaith model rôl, Hwb Menter Canolbarth Cymru; NPTC-Powys a Choleg Ceredigion, gan rannu adnoddau lle bo hynny'n ymarferol.

- Rydym yn cynnal cyswllt rhwng Rhwydwaith Entrepreneuriaeth Canolbarth Cymru (rhannu gwybodaeth) a Grŵp Menter Strategol y Brifysgol, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

==========================================================================================

**EFFAITH cael Arweinydd Strategol i ysgogi'r agenda entrepreneuriaeth yn ei blaen yn y Brifysgol:**

- Sicrhau bod Uwch Dîm Rheoli'r Brifysgol yn ymgysylltu'n ddigonol ag Entrepreneuriaeth.

- Cadeirio'r Grŵp Menter Strategol, gan adrodd yn ôl ar ei gynnydd i Dîm Gweithredol y Brifysgol.

- Caiff yr Arweinydd Strategol Entrepreneuriaeth ei gefnogi gan gyfrifoldeb Gyfadrannol dros Fenter ar ffurf tri uwch Hyrwyddwr Menter Cyfadran. Y tri Deon Cysylltiol - Dysgu ac Addysgu yw'r rhain. Maent yn gyfrifol am weithgarwch entrepreneuraidd yn eu cyfadrannau.

- Fe'u cefnogir gan Hyrwyddwyr Menter Academaidd, sy'n gyfrifol am weithgaredd Entrepreneuraidd yn eu hadrannau.  Er bod yr Hyrwyddwyr Menter Academaidd yn gweithio'n unigol, mae gennym system sy'n cydlynu'r holl weithgareddau menter, sy'n ein galluogi i gofnodi ac adrodd yn ôl ar y wybodaeth hon.

- Rydym wedi atgyfnerthu brand AberPreneur yn ddiweddar a'r gwaith a wneir gyda rhywfaint o ddeunydd marchnata newydd yn hyrwyddo ‘Busnesau Newydd’.  Mae'r taflenni hyn yn dangos dau o'n graddedigion diweddar sydd wedi mynd ymlaen i ddechrau eu mentrau llwyddiannus eu hunain.

==========================================================================================

**Ein “Partneriaid EFFAITH” yn 2023 -24:**

| | |
|---|---|
| • Grŵp Gorchwyl Entrepreneuriaeth AGCAS. Mae Tony yn rhan o'r grŵp sy'n cefnogi Cynghorwyr Gyrfa i roi cyngor i fyfyrwyr ar faterion entrepreneuraidd | (y Deyrnas Unedig) |
| • EEUK – Rydym yn aelodau o'r sefydliad Addysgwyr Menter hwn | (y Deyrnas Unedig) |
| • Antur Cymru  - cyflwyno gweithdai a gwybodaeth am gyllid i gleientiaid | (Canolbarth) |
| • BANC – cyflwyno gweithdai a gwybodaeth am gyllid i gleientiaid | (Cymru) |
| • Busnes Cymru/Syniadau Mawr Cymru - cyflwyno gweithdai a darparu mentora | (Cymru) |
| • Hwb Menter Canolbarth Cymru | (Canolbarth) |
| • ArloesiAber | (Canolbarth) |
| • Aberystwyth Llawrydd – mae gennym berthynas ddwyochrog | (Canolbarth) |

==========================================================================================

**Creu EFFAITH drwy Gysylltiadau â Chyn-fyfyrwyr:**

- Yn **2023 -24** fe wnaethom barhau i ddatblygu perthynas fwy ffurfiol â DARO, gan gyfarfod gyda nhw'n rheolaidd i edrych ar brosiectau cydweithredol.

==========================================================================================

**Creu EFFAITH trwy gefnogi Clybiau a Chymdeithasau Menter i gyflymu entrepreneuriaeth:**

- Trwy gefnogi'r clybiau a'r cymdeithasau hyn ein nod yw dal gafael ar y meddylfryd entrepreneuraidd yn y gwahanol gymdeithasau a grwpiau a'u gwneud yn ymwybodol ar yr un pryd o'r gefnogaeth a gynigir drwy'r Grant Entrepreneuraidd Ieuenctid, i'w galluogi i fanteisio i'r eithaf ar y gwasanaethau a gynigir.
- Yn **2023 -24** fe wnaethom barhau i ddatblygu perthynas waith agos ag ysgrifenyddiaeth Clybiau a Chymdeithasau yn Undeb y Myfyrwyr ac edrych ar y clybiau a'r cymdeithasau presennol, ac adnabod y rhai sydd â chysylltiadau entrepreneuraidd cryf.
- Aethom ati i edrych ar fylchau hyfforddi o ran gwaith gyda swyddogion clybiau a chymdeithasau a'r angen am hyfforddiant sy'n seiliedig ar gymhwysedd entrepreneuraidd.
- Yn **2023-24** fe wnaethom barhau i weithio gydag Aberystwyth Llawrydd a'i aelodau.

==========================================================================================

**Creu EFFAITH trwy hyrwyddo Dechrau Busnes a Thwf Busnes:**

- Yn **2023 -24** fe wnaethom barhau i weithio'n agosach gyda'r colegau a'r prifysgolion eraill yng Nghymru i gynllunio, datblygu a chynnal cyfres o ddigwyddiadau menter i Gymru gyfan i fyfyrwyr a graddedigion.

==========================================================================================

**Cyflawniadau EFFAITH 2023 -24**

| | |
|---|---|
| • Fe wnaethom ni YMGYSYLLTU â | **629** myfyriwr |
| • Fe wnaethom ni YMOROL am | **492** “presenoldeb mewn digwyddiadau a chymorth un i un” i fyfyrwyr a graddedigion er mwyn eu cefnogi gyda'u syniadau ar gyfer busnesau a mentrau cymdeithasol |
| • Fe wnaethom ni GEFNOGI | **56** o'r myfyrwyr/graddedigion hyn i ddechrau masnachu fel busnesau neu fentrau cymdeithasol |
| • Fe wnaethom ni YMGYSYLLTU â | **20** Aelod o Staff i Hyrwyddo'r gwaith hwn (gan gynnwys **14** Hyrwyddwyr Menter Academaidd a **6** Ymgynghorydd Gyrfaoedd) |
| • Fe wnaethom ni SICRHAU | **£22,500** mewn arian parod a **£4,000+** “mewn nwyddau” o Fuddsoddiad Preifat i gefnogi'r gwaith hwn |

AberPreneurs gyrfaoedd ABER careers https://www.aber.ac.uk/cy/careers/enterprise/